



MEDI 2021

Ymchwil i'r sefyllfa cartrefi modur yng Ngwynedd

Alun Fôn Williams, Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau
Rebeca Angharad Jones Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn

Ymchwil i'r sefyllfa cartrefi modur yng Ngwynedd

Medi 2021

Nid yw'r twf diweddar ym mherchnogaeth cartrefi modur yn y DU wedi mynd rhagddi heb sylw nac effaith yma yng Ngwynedd wrth i ymweliadau cartrefi modur ddod yn fwyfwy amlwg yn ein trefi, pentrefi â'n ardaloedd gwledig. Mae pandemig COVID-19 hefyd wedi cyfrannu i'r sefyllfa wrth i'r boblogaeth Brydeinig wynebu cyfyngiadau teithio a gwyliau adref.

Gyda hyn mae rheolaeth well o ymweliadau cartrefi modur wedi bod yn destun trafodaeth ymysg ein cymunedau yng Ngwynedd. Pwrpas yr adroddiad a'r gwaith ymchwil hwn ydi casglu a darparu gwybodaeth er mwyn cyfrannu a chreu gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa bresennol yn lleol ac yn genedlaethol. Mae'r adroddiad yn edrych ar:

- Y sefyllfa leol a darpariaeth yng Ngwynedd
- Y sefyllfa ar ddarpariaeth gyfredol yn y DU
- Y sefyllfa ar ddarpariaeth yn rhyngwladol mewn gwledydd eraill
- Edrych ar anghenion a thueddiadau perchnogion cartrefi modur er mwyn canfod barn, amllder a sut mae perchnogion yn defnyddio eu cerbydau a'r math o lefydd maent yn aros.
- Barn trigolion a chymunedau Gwynedd.
- Canfyddiadau a syniadau o ran gwella rheolaeth o gartrefi modur yng Ngwynedd

Cyflwyniad

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae cynnydd sylweddol wedi bod yn y nifer o gartrefi modur sydd wedi eu cofrestru ym Mhrydain gan y DVLA. Bu i'r twf gychwyn yn oddeutu 2010 gyda'r nifer oedd wedi eu cofrestru yn dyblu rhwng 2012 a 2017. Erbyn Mehefin 2020, roedd 357,000 o gerbydau modur cofrestredig yn y DU, gyda 68,000 wedi'u datgan fel SORN - o bosibl oherwydd COVID19. Mae oddeutu 14,000 - 15,000 o gerbydau newydd yn cael eu cofrestru yn flynyddol. Nododd y 'National Caravan Council' gynnydd o 71% mewn gwerthiant cerbydau modur rhwng 2019 a 2020 gyda rhesymau COVID-19 a'r gallu i fod yn hunangynhwysol yn gyrru'r cynnydd hwn.

Mae hefyd angen ystyried y cynnydd sylweddol a phoblogrwydd mewn trosi faniau i gartrefi modur. Dros y blynyddoedd diwethaf mae miloedd o faniau 'panel' cyffredin wedi eu trosi i gerbydau modur hunangynhwysol. Yn bresennol mae'r DVLA yn cydnabod mwyafrif or cerbydau sydd wedi ei trosi fel 'fan gyda ffenestri'. Er fod nifer or faniau yn hunangynhwysol ac yn cael ei yswirio fel camperfan nid yw faniau o'r math yma yn cael eu cyfrifo gan y DVLA fel cerbydau cartrefi modur oherwydd bod eu hedrychiad allanol yn fwy tebyg i fan gyffredin.

Nid yw'r tueddiadau mewn twf yn unigryw i'r DU yn unig gyda gwledydd megis yr Almaen, Ffrainc, Yr Eidal a'r Iseldiroedd wedi gweld twf tebyg. Yn 2017 roedd dros 1.5 miliwn o gerbydau modur yn cael eu defnyddio ledled Ewrop.

Does dim amheuaeth fod pandemig COVID-19 wedi cyfrannu yn sylweddol yn gyrru'r cynnydd mewn gwerthiannau a hurio cartrefi modur. Mae'r rheoliadau a chyfyngiadau teithio dramor ar wyliau wedi cynyddu'r galw am y 'Staycation' Prydeinig. Yn y cyfnod ohoni mae nifer o berchnogion cartrefi modur yn eu gweld fel dull mwy diogel o deithio a chael gwyliau. Oherwydd y sefyllfa bresennol mae arolygon twristiaeth yn darogan cynnydd o oddeutu 21% mewn ymweliadau i gyrchfannau yn y DU yn 2021 (Visit Britain).

Yn gyffredinol mae canfyddiad yn y DU fod ymweliadau gan berchnogion cartrefi modur yn dod a fawr o fudd economaidd i gyrchfan wrth iddynt lenwi â bwyd o archfarchnadoedd ayyb cyn iddynt deithio i'r ardal. Er y gallai hyn fod yn wir am rai, mae tystiolaeth mewn ymchwil diweddar gan y grŵp cenedlaethol CAMBRA (CAMPAIGN FOR REAL AIRES UK) ac mewn ardaloedd lle mae teithio mewn cartrefi modur yn boblogaidd yn adrodd tueddiadau ychydig yn wahanol. Dengys mewn gwaith ymchwil yn 2019 ar ymweliadau cartrefi modur yn ucheldir yr Alban (North Coast 500) fod ymwelwyr mewn cartrefi modur yn gwario 33% o'u gwariant gwyliau ar lety gyda'r 67% yn weddill ar bethau fel bwyd a diod, atyniadau a siopa lleol. Dengys hefyd fod adroddiadau gan gwmnïau lleol oedd yn hurio cartrefi modur fod eu cerbydau'n cael eu dychwelyd yn aml heb i'r popty a'r offer coginio gael ei ddefnyddio sy'n awgrymu bod yr ymwelwyr hyn yn aml yn bwyta allan mewn caffis, tafarndai neu fwytai lleol.

Cynnwys

1. Sefyllfa gyfredol yng Ngwynedd
 - 1.1 Arolwg llety Gwynedd – Cyngor Gwynedd 2018/19
 - 1.2 Polisiâu Cynllun Datblygu Lloel ar y Cyd (CDLI) Gwynedd ac Ynys Môn
 - 1.3 Polisiâu Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)
 - 1.4 Hawliau Datblygu a Ganiateir
 - 1.5 Y defnydd o droedd cyhoeddus, meysydd parcio a thiroedd eraill ar gyfer cartrefi modur
 - 1.6 Adolygiad o'r Ddeddfwriaeth Parcio/ Traffig
2. Ymchwil Meysydd Carafanau a Gwersylla Gwynedd Ebrill 2021
 - 2.1 Prif ganfyddiadau Meysydd Carafanau a Gwersylla Gwynedd Ebrill 2021
3. Ymchwil perchnogion cartrefi modur
 - 3.1 Prif ganfyddiadau ymchwil perchnogion cartrefi modur
4. Darpariaeth ar gyfer cartrefi modur
 - 4.1 Cymru
 - 4.2 Yr Alban
 - 4.3 Lloegr
 - 4.4 Ewrop
 - 4.5 Seland Newydd
5. Ymchwil trigolion a chymunedau Gwynedd
 - 5.1 Prif ganfyddiadau trigolion a chymunedau Gwynedd
6. Sefyllfa yng Ngwynedd 2021
7. Prif ganfyddiadau ac argymhellion y gwaith ymchwil i'r sefyllfa cartrefi modur yng Ngwynedd
8. Argymhellion
 - 8.1. Treialu a hwyluso'r defnydd
 - 8.2 Rheolaeth a chodi ymwybyddiaeth
9. Diolchiadau

Atodiad 1 Polisi Twristiaeth – Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn

Atodiad 2 Polisi Twristiaeth Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)

Atodiad 3 Matrics Asesu Lleoliadau

1. Sefyllfa gyfredol yng Ngwynedd

Nid yw'r cynnydd mewn ymweliadau gan berchnogion cartrefi modur wedi mynd heb sylw yma yng Ngwynedd ac mae pryderon wedi eu codi mewn nifer o gymunedau ar draws y sir wrth i nifer gynyddol o berchnogion cartrefi modur benderfynu aros mewn lleoliadau ac ar dir 'cyhoeddus' lle nad oes hawl cyfreithlon i gysgu mewn cerbyd dros nos.

Dengys ffigyrau STEAM 2019 Gwynedd fod 7.8 miliwn o ymwelwyr yn ymweld ar sir yn flynyddol ac yn cyfrannu £1.35 biliwn i'r economi leol. Cyfrifwyd yn arolwg llety Gwynedd – Cyngor Gwynedd 2018/19 fod 366 feysydd carafán a gweryslla yng Ngwynedd fyddai yn gallu darparu gwasanaeth i gartrefi modur. Roedd 340 o feysydd carafán a gweryslla yn 2011. Ar gyfartaledd roedd 59 llain (pitch) ar gyfer pob maes gweryslla.

Mae'r tabl isod yn dangos rhaniad y math o feysydd a pharciau gwyliau gafodd eu cyfrifo o fewn y categori carafán a gweryslla.

1.1 Arolwg llety Gwynedd – Cyngor Gwynedd 2018/19

Math	Nifer	% o'r cyfanswm llety	% o'r categori carafán a gweryslla
Parc Gweryslla	47	1.2	12.8
Parc Gwyliau	107	2.7	29.2
Parc Gwyliau a Theithiol	9	0.2	2.5
Parc Gwyliau a Gweryslla	26	0.7	7.1
Parc Gweryslla a Theithiol	95	2.4	26.0
Parc Gwyliau, Teithiol a Gweryslla	25	0.6	6.8
Cyfanswm Carafán a Gweryslla	366	9.2	100.0

Ymddengys ar un llaw fod darpariaeth eithaf sylweddol ar gyfer diwallu anghenion gweryslla yng Ngwynedd. Er hyn, rhaid nodi fod nifer fawr o safleoedd carafán a gweryslla bellach yn gweithredu ar werthiant lleiniau tymhorol / 'seasonal pitch' i berchnogion carafanau sydd yn golygu lleihad sylweddol yn y nifer o leiniau teithiol / dyddiol neu dros nos sydd ar gael.

1.2 Polisiâu Cynllun Datblygu Lloel ar y Cyd (CDLI) Gwynedd ac Ynys Môn

CDLI Gwynedd ac Ynys Môn (2011-26) yw'r prif ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yng Ngwynedd (ddim yn yn cynnwys ardal Awdurdod Parc Cenedaethol Eryri), ac mae'r CDLI yn cynnwys polisiâu cynllunio ar gyfer datblygiadau gan y sector dwristiaeth. Gan fod cartref modur yn dod o fewn diffiniad cyfreithiol carafán, y polisiâu ar gyfer datblygiadau meysydd carafanau teithiol sydd yn berthnasol i gartrefi modur. Gweler isod y diffiniad o garafán yn y Ddeddf safleoedd carafannu a rheoli datblygiad 1960: "any

structure designed or adapted for human habitation which is capable of being moved from one place to another (whether by being towed, or by being transported on a motor vehicle or trailer) and any motor vehicle so designed or adapted but does not include any railway rolling stock or any tent”

Gan nodi'r uchod nid oes polisiau ar wahân ar gyfer cartrefi modur ond mae'n debyg fod hefyd angen gofyn y cwestiwn os yw'r Ddeddf (1960) erbyn hyn yn addas i bwrpas o ran anghenion y sector dwristiaeth a'r rheolaeth ohono.

Mae polisi TWR5 (atodiad 1) yn caniatáu cynigion ar gyfer safleoedd teithiol dros dro, neu estyniadau i safleoedd presennol neu leiniau ychwanegol lle mae'r bwriad yn cydymffurfio gyda'r meini prawf penodol. Mae egwyddorion y meini prawf wedi ei osod allan isod:

- Datblygiad o ansawdd uchel, wedi'i leoli mewn lleoliad anymwthiol
- Osgoi gormodedd o ardaloedd o leiniau caled
- Ddim wedi ei gysylltu yn ffisegol i'r ddaear
- Cyfleusterau wedi ei leoli mewn adeilad presennol neu raid dangos yr angen am gyfleusterau ychwanegol ag rhaid iddynt fod yn gymesur a graddfa'r datblygiad.
- Agos at brif rwydwaith ffyrdd
- Bod y safle yn cael ei ddefnyddio at ddibenion teithio'n unig

1.3 Polisiau Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)

Am yr un rheswm sydd yn cael ei egluro uchod mae datblygiadau yn ymwneud a chartrefi modur yn cael eu hystyried yn erbyn y polisiau sydd yn berthnasol i garafanau teithiol.

Mae polisi 22 a 23 (atodiad 2) o CDLI Parc Cenedlaethol Eryri yn atal datblygiad o safleoedd carfannau newydd o fewn ffiniau'r parc. Mae Polisi 23 yn caniatáu ymestyn safleoedd carafanau teithiol a gweryslla os mae'r bwriad yn cyfarch meini prawf penodol. Mae egwyddorion y meini prawf wedi ei osod allan isod

- Safle wedi ei sgrinio'n dda o olygfannau cyhoeddus
- Graddfa a gosodiad yr ehangiad yn briodol yn y dirwedd
- Cynnig yn gwella tirluniad mewnol y safle yn sylweddol ac yn gwella ansawdd cyfleusterau presennol
- Mae'r cais yn gymesur a maint y safle presennol.

1.4 Hawliau Datblygu a Ganiateir

Mae rheoliadau newydd wedi dod i rym o 30 Ebrill 2021. Mae Llywodraeth Cymru wedi llacio'r rheolaeth gynllunio ar gyfer datblygu penodedig dros dro drwy wneud diwygiadau i Orchymyn Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 ("GDCG"). Pwrpas y llacio yma ydi helpu busnesau i ailagor a chefnogi'r ymdrechion i greu amgylchiadau diogel. Ar hyn o bryd mae defnydd tir dros dro ychwanegol yn cael i gyfyngu i 28 diwrnod, mi fydd y rheolau newydd yn rhoi 28 diwrnod ychwanegol ond mae hyn yn benodol ar gyfer gweryslla tentiau. Ni chaniateir datblygu os mai'r defnydd tir yw safle carafanau.

1.5 Y defnydd o diroedd cyhoeddus, meysydd parcio a thiroedd eraill ar gyfer cartrefi modur

Mae'r angen a'i peidio am ganiatâd cynllunio ar gyfer defnyddio tir (e.e. meysydd parcio cyhoeddus, tiroedd eraill ac ati) i gartrefi modur aros nos yn ystyriaeth o ffaith a graddfa ("fact and degree"), er mwyn dod i gasgliad os oes newid defnydd materol wedi bod i'r tir / eiddo. Yn sgil derbyn barn gyfreithiol ar y mater yma, gan y bwylseisio y bydd angen asesu pob un achos yn unigol o ran ffaith a graddfa, mae sail cryf i ddod i gasgliad y bydd y defnydd o dir (e.e. meysydd parcio cyhoeddus, tiroedd eraill ac ati) i gartrefi modur aros dros nos yn gyffredinol yn golygu newid defnydd materol fydd angen caniatâd cynllunio. Mae'n dilyn hefyd y buasai'r defnydd angen trwydded safle o dan ddarpariaeth y Ddeddf safloedd carafannu a rheoli datblygiad 1960. Yn ogystal yw'r defnydd yn ymwneud a maes parcio cyhoeddus lle mae gorchymyn yn weithredol, buasai hefyd angen diwygio gofynion y gorchymyn. Eto, bydd angen asesu pob un achos yn unigol ac ar ei haeddiant.

Bydd angen delio gydag unrhyw gais gynllunio i newid defnydd tir ar gyfer defnydd i gartrefi modur i aros dros nos, yn unol a'r Cynlluniau Datblygu Lleol a nodir uchod, yn ogystal ac unrhyw ystyriaethau cynllunio perthnasol. Fel rhan o'r gwaith ymchwil mae matrices wedi ei ddatblygu (Gweler Atodiad 3) er mwyn cynorthwyo gyda rhoi i os gall safle (e.e. maes parcio) fod yn dderbyniol yn nhermau cynllunio ar gyfer defnydd i gartrefi modur dros nos.

1.6 Adolygiad o'r Ddeddfwriaeth Parcio/ Traffig

Sefyllfa bresennol:

- Mae gan y Cyngor ystod eang o feysydd parcio ledled y Sir sydd yn cynnig parcio diogel a fforddiadwy. Mae croeso i gartrefi modur barcio yn ein meysydd parcio lle nad oes gennym rwystrau uchder wedi'u gosod.
- Mae'n ofynnol i gartrefi modur gadw at y cyfyngiadau parcio drwy sicrhau eu bod yn parcio mewn lleoliad sydd yn addas i faint y cerbyd, er mwyn osgoi peryglon i gerddwyr neu rwystro llif traffig.
- Ni chaniateir cysgu dros nos mewn unrhyw gerbyd.

Pwerau presennol:

- Yn bresennol, mae gan y Cyngor bwerau i darfu Rhybudd Talu Cosb i fodurwyr sydd yn parcio'n anghyfreithlon o dan y Ddeddf Rheoli Traffig 2004, fel arfer ble mae cyfyngiadau e.e. llinellau melyn, arwyddion yn bodoli neu oddi fewn i feysydd parcio talu ac arddangos. Mae'r cyfyngiadau parcio wedi'u selio drwy orchmynion cyfreithiol.
- Mae cymal 'dim gweryslla dros nos' yn rhan o orchymyn cyfreithiol mewn ambell i leoliad, ond er mwyn sicrhau dilysrwydd y Rhybuddion Talu Cosb petawn yn derbyn apêl, rydym angen tystiolaeth gadarn fod y perchnogion wedi cysgu yn y cerbyd. Rydym wedi colli apeliadau yn y gorffennol oherwydd bod modurwyr yn honni eu bod wedi parcio eu cerbyd mewn maes parcio dros nos a'u bod nhw wedi cysgu mewn tŷ perthynas neu ffrind.
- Nid oes gan y Cyngor bwerau i gosbi modurwyr sydd yn parcio cerbydau dros nos mewn mannau sydd gyfochrog a'r ffordd ar hyn o bryd.
- Mae'r Ddeddf Rheoliadau Traffig 1984 yn caniatáu i Awdurdodau Lleol gyflwyno cyfyngiadau drwy Orchymyn Rheoliadau Traffig (Parhaol), Gorchymyn Rheoliadau Traffig Dros Dro neu Orchymyn

Rheoliadau Arbrofol. Mae modd gosod amrywiaeth o gyfyngiadau megis llinellau melyn neu gyfyngiadau i wahardd parcio yn gyfan gwbl (rhwng amseroedd penodol) mewn mannau sydd yn profi'n boblogaidd gyda chartrefi modur, er hyn, gall trigolion lleol sydd yn defnyddio'r lleoliadau hyn eu hunain wrthwynebu i'r cynigion.

- Mae'r Adran Gyfreithiol yn edrych i mewn i'r posibiladau o ail sefydlu is-ddeddfau oedd yn bodoli ar aros fannau gyfochrog i'r ffordd i'w galluogi i orfodi'r sawl sy'n aros ynddynt mewn cartrefi modur dros nos symud ymlaen. Er hyn bydd angen tystiolaeth gadarn fod y deiliad wedi cysgu yn y cerbyd er mwyn sicrhau dilysrwydd y Rhybudd Talu Cosb.
- Mae'r Adran Amgylchedd a'r Adran Economi eisoes wedi gosod arwyddion 'dim gweryslla dros nos' mewn nifer o leoliadau lle mae cwynion wedi eu derbyn, ac ar y cyfan mae hyn wedi bod yn llwyddiant.

Bydd yr Adrannau yn parhau i fonitro.

2. Ymchwil Meysydd Carafanau a Gwersylla Gwynedd Ebrill 2021

Fel rhan o'r adroddiad hwn bu i Wasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau Cyngor Gwynedd gynnal ymchwil ar lein gyda pherchnogion meysydd carafán a gwersylla yng Ngwynedd. Pwrpas y gwaith ymchwil oedd darganfod mwy am ddarpariaeth gweryslla'r sir a chanfod barn leol am y sefyllfa.

Derbyniwyd 153 o holiaduron. 41 holiadur wedi ei lenwi yn llawn. Mae'r dadansoddiad isod yn seiliedig ar y 41 holiadur oedd wedi ei lenwi yn llawn. Derbyniwyd ymatebion gan drawstoriad o fusnesau ar draws Gwynedd yn cynnwys Arfon, Dwyfor a Meirionnydd.

Canlyniadau:

A ydi eich maes gweryslla yn perthyn i glwb?

Math o drwydded	Nifer
Na (Trwydded Llywodraeth leol)	27
Ydym. The Camping and Caravanning Club	5
Ydym. Caravan and Motorhome Club	4
Ydym. Clybiau eraill	5

Yn ystod blwyddyn arferol, pa fisoedd ydych chi ar agor?

Mis	Nifer o feysydd gweryslla ar agor
Ionawr	2
Chwefror	4
Mawrth	17
Ebrill	41
Mai	41
Mehefin	41

Gorffennaf	41
Awst	41
Medi	25
Hydref	24
Tachwedd	9
Rhagfyr	8

Faint o leiniau teithio sydd genych ar gael?

Cyfartaledd o 14 llain deithio ar gael

Nodwch bris llain deithio y noson. (Defnyddiwch brisiau 2020 neu 2021) Er diben For cysondebseliwch y pris ar 1 llain, 2 oedolyn a 2 blentyn yn y prif dymor.

Llain	Cyfartaledd pris
Pris llain yn cynnwys trydan	£24.25
Pris llain heb drydan	£20.05

Yn ystod blwyddyn arferol amcangyfrifwch ganran y lleiniau teithio sydd yn cael eu defnyddio bob mis? (Nifer o leiniau teithiol sydd yn cael eu defnyddio gan babell, carafán neu gartrefi modur.

Mis	Cyfartaledd lleiniau wedi ei defnyddio
Ionawr	10%
Chwefror	20%
Mawrth	37%
Ebrill	45%
Mai	74%
Mehefin	76%
Gorffennaf	89%
Awst	94%
Medi	57%
Hydref	45%
Tachwedd	10%
Rhagfyr	5%

Dros y 5 mlynedd diwethaf a ydych wedi profi cynnydd yn y nifer o ymweliadau gan gartrefi modur?

Cynnydd?	Nifer
Na	3
Do	38

A ydych yn gweithredu polisi lleiafswm arhosiad 2 noson neu fwy?

Bwcio?	Number
Na. Rydym yn cymryd arhosiad 1 noson	28
Ydym. Weithiau e.e. yn ystod y prif dymor	13
Ydym. Drwy gydol yr amser	0

O'ch profiad chwi, a wnaethoch chi groesawu mwy o gartrefi modur i'ch maes gweryslla yn 2020?

Cynnydd yn 2020	Canran
Na. Fe wnaethom groesawu llai.	30.4%
Roedd y sefyllfa fel unrhyw flwyddyn arall	4.3%
Oedd. Roedd cynnydd bach	30.4%
Oedd. Roedd cynnydd mawr	34.8%

Derbyniwyd nifer o sylwadau gan berchnogion meysydd carafán a gweryslla:

“Camper vans that park in layby or beach carparks should be clamped or pay a fee to the council for they are the people who have to clear up after them”

“Deddfu yn erbyn y ffasiwn beth a dirwy os yn gwneud. Dim angen i hyn ddigwydd mewn ardal sydd a gormodedd i faesydd carafanio a champio. Does dim cyfleusterau toiled yn y llefydd yma ond nid yw hyn yn eu stopio rhan mynd i'r toiled mewn llefydd cyhoeddus ac yn peryglu iechyd y cyhoedd!”

“It's not often that we have to turn campervans away (only during bank Holidays usually) as a campervan owner myself I can see the need for some aire type facilities especially when arriving late into an area but it should probably be limited to single night stays, wild camping on the other hand should be legislated against due to the increasing number of campervaners who care little about the area or the local population by littering and fouling lay byes and beaches.”

“Aire type facilities”

“The beach at Dinas Dinlle is quite often flooded with camper vans and campers during the summer months predominantly at the weekends and yet signs are there prohibiting overnight camping. Some are tidy and leave no mess whilst others use it as a local dustbin. Possible measures would be to monitor this and move on the parties. I understand this probably has it's issues. Possibly limit height to vehicles using it but again I feel you would cause issues for locals using it to exercise their horses, surfers visiting etc. Maybe a specific area can be created for this. I believe the same problem exists along the foryd foreshore and parking areas. Aire type facilities would be a consideration but would only work if the legislation was but in place to stop overnight parking and did not put existing parks into competition.”

2.1 Prif ganfyddiadau:

- Darpariaeth dymhorol yn bennaf rhwng Ebrill a Hydref sydd ar gael

- Cyfartaledd lleiniau 'teithiol' sydd ar gael 14. Ffigwr llawer is na'r cyfartaledd o 59 llain a gyfrifwyd drwy'r ymchwil llety ymwelwyr sydd yn awgrymu bod nifer fawr o leiniau yn cael eu defnyddio ar sail cytundebau tymhorol a ddim ar gael ar gyfer defnydd dyddiol a dros nos.
- Lefel deiliadaeth uchel yn ystod y prif dymor Mai – Medi.
- Cynnydd yn y nifer o ymweliadau cartrefi modur wedi ei brofi gan 38 allan o 41 dros y 5 mlynedd ddiwethaf.
- Oddeutu 60% wedi profi cynnydd yn nifer o ymweliadau gan gartrefi modur yn 2020.

3. Ymchwil perchnogion cartrefi modur

Does dim amheuaeth fod COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar boblogrwydd cartrefi modur. Staycation ar gallu i fod yn hunangynhwysol a hunangynhaliol yn gyrru'r apêl. Ond fel unrhyw ddiwydiant arall, datblygiadau a thechnoleg sydd wedi cyfrannu fwyaf tuag at y cynnydd mewn poblogrwydd yn ystod y 10 mlynedd diwethaf.

Datblygodd y syniad o gartrefi modur yn y 1960au wrth i gwmnïau megis Volkswagen lansio eu cerbydau modur 'camperfan' eiconig. Ar y pryd roedd cerbydau or math yn galluogi eu perchnogion gysgu a choginio oddi fewn i'r modur.

Erbyn heddiw mae'r ddarpariaeth sydd ar gael o fewn cartrefi modur yn wahanol iawn ac ers diwedd y 1990'au gwelwyd y cerbydau yn cael eu datblygu i fod yn gwbwl hunangynhwysol. Mae'r math yma o gartrefi modur (cysgu teulu) yn gallu bod yn hunangynhwysol am oddeutu 4 diwrnod sydd yn golygu na fyddai rhaid iddynt yn y cyfnod hwn gael cyflenwad pŵer, wagio unrhyw wastraff na chael dwr. Mewn cerbyd or fath mae offer coginio safonol, gwllâu, ystafell ymolchi a chawod, cyflenwad pŵer trydanol 'on board', nwy ac offer gwresogi.



Fel rhan or adroddiad hwn bu i Wasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau Cyngor Gwynedd gynnal ymchwil ar lein er mwyn targedu perchnogion cartrefi modur. Pwrpas y gwaith ymchwil oedd darganfod mwy am dueddiadau teithio perchnogion. Targedwyd perchnogion drwy rwydweithiau cyfryngau cymdeithasol.

Ystadegau ymchwil perchnogion cartrefi modur Ebrill 2021

Derbyniwyd 12,500 o holiaduron, 8,833 o holiaduron llawn. Er diben y gwaith ymchwil hwn defnyddiwyd yr holiaduron llawn yn unig.

Pa wlad ydych yn byw?

Gwlad	Canran %
Cymru	19.7
Lloegr	73.6
Yr Alban	4.4
Iwerddon	1.0
Gweddill Ewrop	1.3

Pa fath o gerbyd ydych chi berchen?

Math o gerbyd	Canran %
Motorhome	62.7
Campervan	34.9
Arall	2.4

Ydi'r cerbyd yn?

Math o adeiladwaith	Canran %
Coach Built	57.9
Campervan Professional	27.1
Self-Build	15.0

A ydych chi yn perthyn i glwb?

Clwb	Canran %
Caravan and Camping Club	33.7
Caravan and Motorhome Club	33.5
Arall	11.3
Na	21.5

Pa mor aml ydych chi yn cael gwyliau yn y DU gydag eich cerbyd?

Nifer o weithiau	Canran %
1 i 4	19.9
5 i 9	37.4
10 +	42.7

A ydych erioed wedi teithio i Wynedd (Eryri a Phen Llŷn) gyda'ch cerbyd?

Wedi teithio i Wynedd?	Canran %
Do	62.1

Na	36.8
Dim yn siŵr	1.1

Pan yn mynd ar wyliau yn eich cerbyd, ar gyfartaledd faint o nosweithiau ydych yn aros i ffwrdd o gartref?

Cyfartaledd nosweithiau i ffwrdd	Canran %
1 i 3 noson	33.1
4 i 6 noson	33.9
7 +	33.0

Pa amser or flwyddyn ydych chi yn mynd ar wyliau yn eich cerbyd?

Amser or flwyddyn	Canran %
Gydol y flwyddyn. 12 mis.	64.3
Rhan or flwyddyn	35.7

Fel rheol faint o nosweithiau y byddwch yn aros yn yr un lle?

Nifer o nosweithiau	Canran %
1 noson	23.3
2 noson	39.0
3 noson	23.5
4 + noson	14.2

Lle ydych yn aros? Pa un or isod sydd yn disgrifio eich patrwm aros orau?

Disgrifiad	Canran %
Rydym wastad yn aros mewn gwerysll cydnabyddedig	18.3
Rydym yn aros mewn gwerysll cydnabyddedig a champio gwyllt	68.9
Campio gwyllt yn unig	7.4
Arall	5.5

Os yn 'campio yn wyllt', pa resymau ydi dewis gneud hyn?

Rheswm	Canran %
Mae o am ddim / arbed costau	12.2
Lleoliad. Rydym eisiau aros mor agos â phosib i'r lle ydym eisiau ymweld e.e. tref neu atyniad	27.7

Mae ein cerbyd yn un hunangynhaliol ac yn addas i gampio gwylt - does dim angen gwasanaethau arnom ni e.e. cyflenwad trydan ayyb.	30.4
Rydym fel rheol yn campio yn wylt fel 'stopover'.	18.5
Mae meysydd gweryslla yn aml yn llawn felly mae rhaid i ni 'gampio'n wylt'	7.4
Arall	3.8

Yn Ewrop mae 'aires' neu fannau penodol ar gyfer cysgu mewn cartrefi modur dros nos yn cael eu darparu. Pe byddai 'aire' ar gael yng Ngwynedd fydda chi yn cysidro ei defnyddio?

Fyddwch chi yn aros mewn aire?	Canran %
Na. Mi fyddwn ni yn aros mewn maes gweryslla cydnabyddedig.	3.2
Na. Mi fyddwn ni yn 'campio'n wylt'	4.6
Byddwn. Mi fyddwn ni yn aros mewn 'aire'.	92.2

Pe byddai cyfleuster 'aire' ar gael i chi. Pa fath o wasanaethau fyddech chi yn hoffi ei weld yn cael ei ddarparu?

Math o wasanaeth	Rhestr yn ôl poblogrwydd ('Multi choice')
Dwr ffres	7,909
Safle gwaredu gwastraff toiled	7,650
Biniau ysbwriel	7,243
Llain galed (hard standing)	3,485
Wedi ei oleuo	1,933
Trydan. Pwynt gwefru 240v (Battery charging facility)	1,925
Arall	965

**Arall – pwynt gwybodaeth, wifi

Faint fyddech chi yn fodlon talu am aros mewn cyfleuster 'aire'? (Er mwyn cysondeb seliwch y pris ar - Dim 240v trydan ond yn cynnwys cyflenwad dwr ffres, man gwaredu gwastraff toiled, llain galed, biniau ysbwriel) Nodwch y pris i'r £ agosaf. **Cyfartaledd £10.**

Sylwadau - Yn ogystal ar 12,500 o ymatebion ir holiadur ar lein derbyniwyd oddeutu 300 o e-byst gan berchnogion yn datgan eu syniadau ai profiadau o deithio gyda chartrefi modur.

"just completed your aires questionnaire and want to thank you for considering the problem that motorhome owners have. Motorhomes are not caravans and are designed to remain mobile. In most cases we only need an overnight stop off."

“We are regular visitors to Powys, where overnight stays are allowed and welcomed on several of their car parks. Back in September we spend a week touring this way in Powys, visiting the towns, markets and spending in local shops.”

“I think the motorhome owner is misunderstood in our requirements. Being self-contained with toilet, shower, cooking, solar power etc. we need very little. Just a safe parking spot, somewhere to empty a toilet cassette and that can be as simple as an open sewer drain or dedicated toilet bowl plus Fresh water if available. Mains electric is never a real requirement for most, in fact this is the issue that incurs the largest cost in supply and maintenance.”

“I must say how refreshing it is to see a council that is ‘forward thinking’, rather than just legislating against wild camping it really is welcoming to see Gwynedd embracing this as an opportunity to benefit local communities.”

“May I take this opportunity to Thank you for taking the time and trouble to looking into the wild camping situation in the uk.”

“Thank you for giving us this opportunity to share our views. Since retiring three years ago we purchased a motorhome, hoping to explore the continent and more of the UK. In that time (before coronavirus) we have been to the North of Scotland, and to the South of France twice. The contrast between facilities here and on the continent are grim - at many motorway service areas in France, there are free stopover facilities for motorhomes, and Aires at most towns and villages. In the UK, all we find are restriction notices and height barriers. Our motorhome is self-contained, we carry all our waste with us until we find disposal facilities. Although we have cooking facilities, it is a compact van with not a huge amount of storage space, so we do tend to eat out a lot. We also carry bikes to explore the locality wherever we stop. We therefore spend money in the local economy when we travel, and although we are pensioners, this still adds up to a reasonable sum. If we could find overnight facilities with water and waste disposal, we would happily pay say £10 per night, eat at the local pub, and move on in the morning.”

“Rwy' newydd ateb holiadur yng nglyn a'r posibilrwydd o 'aires' yng Ngwynedd. Syniad grêt yn fy man i. Ni'n teulu o 5 gyda motorhome ac yn mwynhau gwyliau teulu mor aml a sy'n bosib. Gwyliau haf yn Ffrainc ac yn defnyddio aires yn unig wrth i ni deithio i campsites.

Hefyd yn gyrru i'r Almaen yn aml am wylie sgïo ac yn aros yn aires ar y ffordd.”

“First find a site which is large enough, suits the local council and residents. Ensure that it is close enough to shops, pubs etc for local businesses to benefit from the substantial money that these affluent people will spend. Put a limit of 2 or 3 days on their stay to avoid long term stays. Install ticket machines and charge £10 - £12 a night depending on location. Many vans will also use the Aire for daytime visiting, so the benefit to local businesses is substantial. Then most importantly put height bars on any other car parks in the locality and strictly enforce a no camper van parking rule in the area. In this way you can control where these vehicles can stop.”

3.1 Prif ganfyddiadau ymchwil perchnogion cartrefi modur:

- Teithwyr cyson. 80% yn teithio rhwng 5 a 10 gwaith y flwyddyn.
- 95% yn gerbydau hunangynhwysol.
- 52% ond yn aros mewn un lle am 1 neu 2 noson yn unig.
- 65% yn defnyddio eu cerbydau driwy'r flwyddyn.
- 92.2% yn nodi y byddent yn defnyddio darpariaeth debyg i 'Aire' pe bai ar gael.
- Dwr ffres, gallu gwaredu gwastraff toiled a gwastraff ysbwriel oedd y tri prif angen pan yn teithio ar wyliau gyda chartrefi modur. Darpariaeth trydan oedd olaf ar y rhestr.
- Pan ar wyliau 68.9% yn defnyddio cymysgedd o arosiadau mewn meysydd gweryslla a champio gwyllt.

Yn dilyn gwaith ymchwil diweddar gan CAMPRA mae'r tabl isod yn crynhoi'r prif wahaniaethau rhwng ymwelwyr sydd yn teithio gyda phabell / carafán ac ymwelwyr sydd yn teithio gyda chartrefi modur:

	Pabell / Carafán	Cartrefi Modur
Lle	Maes carafán neu wersylla sydd fel rheol rhai milltiroedd tu allan i dref / pentref.	Mewn trefi neu bentrefi - yn ddelfrydol o fewn gallu cerdded i wasanaethau lleol megis siop, tai bwyta ayyb.
Pryd	Ebrill – Hydref Prif dymor a phen wythnosau	Trwy'r flwyddyn
Sut	Defnyddio car i gyrraedd safle carafán a gweryslla. Defnyddio car i deithio o amgylch y gyrchfan.	Cartref modur yw'r unig gerbyd. Yn ddibynol ar feic, cerdded a thrafnidiaeth gyhoeddus.
Arhosiad	Penwythnosau hir, gwyliau 5, 7 14 diwrnod.	24 – 48 awr
Gwasanaethau sydd eu hangen	<ul style="list-style-type: none"> • Toiledau • Cawod • Trydan • Lleiniau mawr • Nifer o wasanaethau ar y safle e.e. siop a bar 	<ul style="list-style-type: none"> • Dwr ffres • Gwastraff toiled • Gwastraff ysbwriel
Diddordebau	"Setting up a 'pitch' and enjoying the facilities the site has to offer with occasional trips into the local area."	"Dining out at local restaurants and cafes; exploring town centres and local attractions on foot or by cycle"
Tueddiadau bwyta	"Take food to cook, buy from campsite shop, occasional takeaways or visits to cafes or restaurants, BBQs"	"Take a small amount of basic food for trip then buy from local businesses or eat out at cafes/restaurants/pubs or buy

		takeaways to eat in motorcaravan.”
--	--	------------------------------------

4.Darpariaeth ar gyfer cartrefi modur

Law yn llaw a thwf ym mhoblogrwydd teithio mewn cartrefi modur mae nifer o awdurdodau lleol ar draws y DU bellach wedi datblygu a darparu lleoedd pwrpasol ar gyfer caniatáu i gartrefi modur barcio a chysgu dros nos. Mae nifer wedi addasu neu ddarparu meysydd parcio ond mae eraill wedi datblygu cyfleusterau ‘aires’ llawn. (Mae cyfeirio ac eglurhad pellach yn yr adroddiad hwn at ‘Aires’).

Nid oes cysondeb o ardal i ardal ac er bod ambell i awdurdod lleol wedi datblygu cynlluniau penodol ar gyfer cartrefi modur mae’r mwyafrif o awdurdodau yn parhau i ymdrin â chartrefi modur yn unol â pholisïau’r ‘Caravan Sites & Control of Development Act 1960’.

Ymddengys fod dadleuon a herio wedi bod yn ddiweddar gan grwpiau megis CAMBRA gan fod yna ychydig o ddryswch ynghylch polisïau lleol ar gyfraith ynghylch cysgu mewn cerbyd hunangynhwysol a bod hyn yn rhwystro datblygu’r farchnad yn y DU. Mae’r DU mewn hyn o beth yn unigryw. Yng ngweddill Ewrop, mae cysgu mewn cartrefi modur yn cael ei weld fel ‘parcio’ a dim ‘gwersylla’, mae gwledydd megis Ffrainc ar Almaen yn gwahaniaethu rhwng gweithgaredd cartrefi modur a charafán / pebyll. Yn y DU, mae ‘gwersylla’ wedi ei ddeddfu yn gyfreithlon dan ddeddf ‘Caravan Sites & Control of Development Act 1960’. Cyflwynwyd y Ddeddf hon yn 1960. Mae nifer o grwpiau cenedlaethol yn lobio er mwyn ei diwygio er mwyn adlewyrchu’r hyn sydd yn digwydd ar y cyfandir ac i gynnwys datblygu darpariaethau ar gyfer ‘natur grwydrol’ a hunangynhwysol cartrefi moduron.

Mae rhai awdurdodau lleol wedi datblygu is-ddeddfau a darpariaethau megis ‘aires’ sydd i’w darganfod yn Ffrainc. Mae lleoliadau fel Donaghadee (GI), Canterbury Park and Ride, Helmsley, Skipton, Hawick, Cyngor Craven, Parc Gwledig Lochore (Fife), Comisiwn Coedwigaeth yr Alban, Harbwr Ardglass, i enwi ond ychydig wedi datblygu cyfleusterau er mwyn ymateb i anghenion lleol.

Fel rhan or gwaith ymchwil hwn gwyddom wrth arolygu fforymau a grwpiau Facebook cartrefi modur fod y cyfleusterau hyn yn cael eu defnyddio ai croesawu gan berchnogion cartrefi modur.

4.1 Cymru

Mae’r sefyllfa yng Nghymru yn gymysg. Mae Cyngor Sir Powys caniatáu parcio dros nos mewn nifer o’i meysydd parcio am un noson mewn saith, a deallir fod hon yn drefn sydd wedi bod mewn lle ers y 1990au fel rhan o’r gorchymyn sydd yn weithredol ar gyfer y meysydd parcio perthnasol. Mae Sir Gaerfyrddin a Sir Fynwy yn edrych ac yn archwilio opsiynau. Yn ystod 2020 defnyddiwyd hysbysiadau cyfyngiad traffig dros dro yn Niwgwyl gan Gyngor Sir Penfro i atal carafanau a charafanau modur rhag parcio mewn gilfanau. Roedd hyn mewn ymateb i bryderon diogelwch ynglŷn â charafanau a chartrefi modur yn parcio dros nos. Yn Ystod yr haf llynedd roedd ymdrech i atal gwersylla mewn meysydd parcio wrth wneud patrolau gorfodi ben bore.

Mae Croeso Cymru yn y broses o weithredu cynllun 10 mlynedd er mwyn datblygu 3 llwybr teithiol cenedlaethol dan faner Ffordd Cymru - Ffordd y Gogledd, Ffordd yr Arfordir a Ffordd y Cambrian - mae'r tri yn cynnwys rhannau yng Ngwynedd.

4.2 Yr Alban

Yn ôl nifer o grwpiau cartrefi modur megis CAMPRA yr Alban sydd yn cael ei chydabod fel y wlad orau yn y DU o ran isadeiledd a darpariaeth ar gyfer cartrefi modur. Er bod adroddiadau negyddol wedi bod yn y wasg yn ddiweddar ynghylch ar nifer ymwelwyr yn ymweld ar yr NC500 mae cymunedau lleol ar hyd y llwybr yn cydnabod yr angen i fynd i'r afael â'r problemau hyn ac wedi bod yn datblygu lleoliadau gwasanaethu cerbydau modur. Mae Cyngor sir yr Ucheldir wedi bod yn cydweithio a thirfeddianwyr megis ffermwyr sydd â thir er mwyn datblygu a darparu cyfleusterau syml ar gyfer arosiadau byr, er mwyn dod â budd economaidd i fusnesau lleol.

Mae ardaloedd poblogaidd eraill megis Ynys Tiree a'r Pharc Coedwig y Trossachs hefyd wedi cychwyn edrych ar dreialu defnyddio meysydd parcio lleol er mwyn diwallu anghenion cartrefi modur. Mae nifer o llwybrau teithiol wedi ei datblygu yn yr Alban yn benodol er mwyn targedu ymwelwyr mewn cartrefi modur. Mae llwybr teithio'r NC500 yn cael ei chydabod fel un or goreuon yn y byd tra bod llwybrau eraill megis y North East 250 yn cwmpasu'r ardal i'r Dwyrain o Inverness. Mae Heart 200 yn cynnwys canol y wlad ac mae'r South West Coastal 300 yn cynnwys ardal Dumfries a Galloway. Mae'r llwybrau teithiol hyn yn denu cartrefi modur trwy gydol y flwyddyn.

Mae cyfleusterau gan y sector gyhoeddus a phreifat wedi eu datblygu. Mae'r gymuned yn Caerlaverock wedi datblygu asedau 'aros' dros nos i gartrefi modur. Mae'r rhain wedi ei darparu gan dirfeddianwyr lleol a grwpiau cymunedol, gydag anogaeth gan yr awdurdod lleol a llywodraeth genedlaethol yr Alban. Mae Cyngor Fife wedi darparu safleoedd ym Mharc Gwledig Lochore ger Lochgelly ac mae ardal Loch Lomond hefyd wedi cychwyn treialu cynllun 'aires' er mwyn diwallu anghenion yn yr ardal.

Mae'r gyfraith yn yr Alban yn caniatáu gweryslla gwyllt gyda phabell mewn ardaloedd gwledig ar sail bod y sawl sydd yn campio yn gadael dim olrhain ar eu hol. Fodd bynnag, nid yw'r gyfraith hon yn berthnasol i gerbydau modur, er hyn mae cysgu mewn cartrefi modur yn cael ei oddef yn gyffredinol.

4.3 Lloegr

Nid oes gan Loegr strategaeth genedlaethol ar gyfer cartrefi modur ond mae nifer o awdurdodau lleol a sefydliadau cyhoeddus a phreifat yn darparu cyfleusterau. Mae un or enghreifftiau gorau i'w ddarganfod yng Nghaergaint. Yn ddiweddar mae Cyngor Tref Exmouth wedi datblygu safle 'aire' ar gyrion y dref sydd hefyd yn cynnwys gwasanaeth parcio a theithio. Mae Cyngor Craven yn caniatáu i gartrefi modur barcio dros nos mewn tri o'i meysydd parcio - Skipton, Settle ac Ingleton. Yn Skipton a Settle caniateir aros am uchafswm o dair noson, yn Ingleton, caniateir hyd at saith noson. Nid oes cyfleusterau, a'r gost i barcio dros nos yw £5 y noson, ynghyd â'r taliadau arferol yn ystod y dydd. Mae meysydd parcio hefyd yn cael eu defnyddio i bwrpas 'parcio dros nos' yn Helmsley. Mae Parc Cenedlaethol Yorkshire Moors yn cynnal treialon ar hyn o bryd, gan ganiatáu parcio dros nos yn Sutton Bank, Chop Gate a Thornton Le Dale. Ar hyn o bryd mae Northumbrian Water yn caniatáu parcio dros nos mewn tri o'i safleoedd yng Nghanolfannau Ymwelwyr Coedwig Kielder - Tower Knowe a Kielder a Elf

Kirk View. Yn ychwanegol, maent yn caniatáu parcio dros nos yn eu safleoedd cronfeydd dŵr eraill fel Derwent a Fontburn.

Mewn ymateb i heriau tebyg i'r hyn sydd yn cael eu profi yng Ngwynedd mae Ardal y Llynnoedd yn paratoi nifer o weithredoedd newydd ar gyfer 2021 er mwyn gwella rheolaeth cartrefi modur yn yr ardal. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys:

- Datblygu Canllaw "Sut i ymweld â Cumbria mewn cartrefi modur" gan gynnwys rheolau i wasgaru clystyrau o faniau.
- Gosod arwyddion cyson yn ymwneud ag aros dros nos.
- Tynhau rheolau mewn meysydd parcio gydag arwyddion dim parcio dros nos / na aros mewn cerbydau.
- Creu rhestr a hyrwyddo lleoliadau lle mae yn dderbyniol i gartrefi modur barcio dros nos
- Cysylltu efo gwefannau cartrefi modur e.e. Park4night i gywiro gwybodaeth ac i annog cydymffurfio a rheolau cenedlaethol a lleol.

Yn ogystal ar uchod mae Ardal y Llynnoedd wedi bod yn defnyddio Gorchmynion Rheoliadau Traffig Dros Dro mewn ardaloedd lle'r oedd parcio anghyfreithlon wedi dod yn fater arwyddocaol.

Mae gwefannau www.britstops.com yn rhwydwaith o leoliadau sydd yn darparu ac yn addas ar gyfer cartrefi modur ar draws Prydain. Mae'r lleoliadau yn caniatáu parcio am ddim am un noson. Nid yw yn bosib bwcio o flaen llaw a does dim cyfleusterau ond mae'n bosib parcio am un noson. Dydi cartrefi modur heb gyfleusterau ddim yn cael aros dros nos. Mae'r map isod yn dangos y fath o fusnesau sydd yn croesawu carafanau modur a'i lleoliad. Mae'r sampl o'r wybodaeth sydd ar gael i'w weld isod.

Each entry is easy to understand

Colour corresponds to the region on the map

Name/address of venue, telephone number, contact and website

Pub? Farm shop? Vineyard?

Number of the dot on the regional map

Number of places available

Phone ahead? No

Large motorhomes? No

Dogs allowed? Yes

Litter disposal? Yes

Fresh water? Yes

Grey waste? Yes

Electricity? No

Free wifi? Yes

Black waste? No

Dates closed for stopovers

Information on the host, produce and the local area

Clear written directions to the host

Important or useful information

Key to symbols:

- Litter
- Fresh water
- Grey water
- Hook up
- Free WiFi
- Black water
- Greyed out = not available



4.4 Y Sefyllfa yn Ewrop

Ymddengys fod y sefyllfa yn Ewrop yn dra gwahanol, lle mae darpariaeth eang o gyfleusterau ar gyfer cartrefi modur. Yn Ffrainc, Yr Almaen ar Eidal gellir darganfod cyfleusterau Aire (Ffrainc), Stellplatz (Almaen) neu Sostas (Eidal) yn bron iawn holl brif drefi a phentrefi'r wlad.

Beth ydi Aire / Stellplatz neu Sosta?

Datblygodd y syniad o 'Aire' am y tro cyntaf yn Ffrainc pan fu i lywodraeth y wlad eu cyflwyno mewn cymunedau ar sail cyfleoedd datblygu economaidd.

Yn syml, ardal barcio ddynodedig dros nos i'w defnyddio gan gartrefi modur cwbl hunangynhwysol ydi 'Aire'. Ar draws Ewrop fe'u darperir gan yr awdurdod lleol, y Maer yn Ffrainc, cymunedau neu dirfeddiannwr preifat. Mae 'Aires' i'w darganfod mewn amryw o leoliadau ond i gyd fynd a gweledigaeth wreiddiol llywodraeth Ffrainc maent fel rheol wedi ei lleoli mewn pentrefi neu drefi neu yn agos iawn i gyfleusterau cymunedol. Y bwriad yw annog ymwelwyr sydd yn teithio gyda cherbydau modur i aros mewn tref neu bentref er mwyn cynnig elfen o fudd economaidd i'r gymuned leol a chael rheolaeth well dros y sector. Yn aml iawn mae meysydd gweryslla yn cynnig dau fath o wasanaeth ar yr un safle, un ar gyfer gweithgaredd campio ac un ar gyfer parcio a chysgu dros nos mewn cerbydau modur.

Mae gwahaniaethau amlwg mewn polisi. Mae llywodraethau gwledydd Ewrop yn gwahaniaethu rhwng gweithgareddau 'campio' a chysgu mewn cartrefi modur. Y prif reswm am hyn yw eu bod yn dehongli cartrefi modur fel unedau hunangynhwysol, hyn ydi bod y cerbydau yn cynnwys tanciau dwr, pŵer, nwy, gwres, toiled ayyb ynghyd ar ffaith bod natur teithio / gwyliau mewn cartrefi yn golygu eu bod yn symud o le i le yn fwy rheolaidd, yn aml yn ddyddiol. Nid yw gweithgareddau 'campio' hyn ydi, pethau fel barbeciw, byrddau a chadeiriau tu allan ayyb yn cael ei ganiatáu mewn aire.

Mae cyfleusterau gwahanol i'w darganfod mewn Aire / Stellplatz neu Sosta. Mae rhai ond yn cynnig gofod i barcio yn unig. Yn y mwyafrif mae cyfleusterau hanfodol megis tap dwr yfed, pwynt gwastraff toiled a phwynt gwastraff dwr llwyd a biniau ysbwriel. Mae rhai hefyd yn cynnig cyfleusterau trydan i alluogi'r cerbydau arwystlo eu batris.

Mae nifer fawr o berchnogion cartrefi modur o Brydain yn dewis teithio i Ewrop oherwydd y rhwydwaith eang o gyfleusterau sydd ar gael.

Mae'r fidio yma gan Nigel a Sonia Wignall o Gonwy yn grynodedb o sut mae'r system aires a stellplatz yn gweithio yn Ffrainc ac yn yr Almaen. <https://youtu.be/kuLbiMk1Ivo>



Dros for Iwerddon mae Gweriniaeth Iwerddon wedi datblygu strategaeth ffurfiol ar gyfer twristiaeth cartrefi modur. Yn 2014 lansiodd Fáilte Ireland y 'Wild Atlantic Way' sydd yn lwybr teithio 2,500km ar hyd arfordir gorllewinol y wlad. Ers ei lansio mae wedi datblygu yn un o brif gyrchfannau teithio i ymwelwyr a chartrefi modur ac yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol. Mae nifer o awdurdodau lleol wedi ei weld fel cyfle a sawl ardal wedi datblygu cyfleusterau cartrefi modur. Mae Cyngor Waterford, Cyngor Sir Cork a Chyngor Donegal wedi darparu sawl cyfleuster 'aire' ar gyfer cartrefi modur. Mae safle 'aire' marina Portumna (yn y llun) wedi ennill sawl gwobr ragoriaeth am eu cyfleusterau. Gellir aros yno am 10 ewro'r noson ac mae yng nghanol y pentref.



4.5 Seland Newydd

Mae polisïau gweithredu a systemau rhwydwaith parcio ar gyfer cartrefi modur yn Seland Newydd yn cael eu cydnabod gan nifer fel y rhai gorau yn y byd. Mae 'Freedom Camp' yn rhwydwaith o safleoedd dynodedig lle gall cartrefi modur aros dros nos, mae'r rhain fel rheol yn cael eu darparu am ddim gan Awdurdodau Lleol. Er mwyn gallu aros dros nos mewn safle Freedom Camp mae yn hanfodol fod y cartrefi modur wedi'i ardystio fel cerbyd hunangynhwysol fyddai ar gallu i ddal digon o ddŵr (12L o ddŵr y person y diwrnod), darparu toiled (pan fydd y gwely'n cael ei wneud - dim toiled sydd yn cael ei gadw dan y gwely neu mewn cwpwrdd) a sbwriel am isafswm o 3 diwrnod. Mae yn hanfodol i gartrefi modur gael prawf hunangynhwysol sydd yn para 4 blynedd. Mae fwy o wybodaeth am y criteria hunangynhwysol i'w ddarganfod yma:

<https://www.freedomcamping.org/plan-your-trip/self-containment-certification/>

5. Ymchwil trigolion a chymunedau Gwynedd

Fel rhan or ymgynghoriad fe gynhaliwyd gwaith ymchwil er mwyn canfod barn trigolion a chymunedau Gwynedd i'r sefyllfa cartrefi modur yn lleol. Cynhaliwyd y gwaith ymchwil ar lein am gyfnod o 6 wythnos rhwng 20/07 a 31/08 2021.

Cwblhawyd 4,868 o holiaduron, 2,169 o holiaduron cyflawn. Mae'r dadansoddiad isod yn seiliedig ar 2,169 o ymatebion cyflawn. Derbyniwyd ymatebion gan drawstoriad o drigolion ar draws Gwynedd yn cynnwys Arfon, Dwyfor a Meirionnydd.

Canlyniadau:

Nifer wedi ymateb yn llawn	2,169	
Ydi cartrefi modur yn broblem yn eich ardal chwi?		
	Nifer	Canran
Heb ateb	66	3.0%
Na, nid yw yn broblem yn fy nghymuned	715	33.0%
Ydi ar gyfnodau e.e. yr haf, penwythnosau	999	46.1%
Ydi, mae'n broblem gyson yn fy nghymuned	389	17.9%
	2,169	100.0%
Mae rhai awdurdodau lleol eraill mewn cyrchfannau twristiaeth poblogaidd yn y DU wedi cychwyn datblygu cynlluniau i wella rheolaeth cartrefi modur. Un or ymyraethau mwyaf cyffredin ydi'r datblygiad o 'aires' sydd yn gyffredin iawn mewn gwledydd Ewropeaidd. Yn eich tyb chwi pa fath o ymyrraeth dylai gael ei ystyried i wella rheolaeth a phrofiad ymweliadau cartrefi modur ? (Ticiwch le yn berthnasol)		
	Nifer	Canran (allan o 2,169)
Gwneud dim. Does dim angen gwneud mwy i wella rheolaeth cartrefi modur yng Ngwynedd	50	2.3%
Mwy o feysydd gwerysyla. Cynyddu capasiti	559	25.8%
Agor meysydd gwerysyla drwy'r flwyddyn	663	30.6%
Deddfu a gorfodi mwy llym	838	38.6%
Treialu syniadau newydd e.e. cyfres o 'aires' mewn safleoedd mwy trefol gan ddefnyddio meysydd parcio cyfredol y Cyngor neu fusnesau preifat	1,599	73.7%
Arall	162	7.5%
Dengys or gwaith ymchwil gyda pherchnogion cartrefi modur fod mwyafrif helaeth yn awyddus aros dros nos mewn lleoliadau mwy trefol er mwyn bod yn agos i wasanaethau megis siopau, tai bwyta ac ati. Maent hefyd yn tueddu i aros ar gyfartaledd o 2 noson cyn symud ymlaen. Fydda chi yn hapus gweld treialu defnydd o feysydd parcio mewn lleoliadau mwy trefol a chaniatáu parcio dros nos am gyfnod penodol e.e. 48 awr?		
	Nifer	Canran
Byddwn, hwn yn ymddangos yn syniad da i'w dreialu	1,500	69.2%
Dwi ddim yn siŵr	136	6.3%
Na, dwi ddim yn meddwl fod hwn yn syniad addas	512	23.6%

Heb ateb	21	1.0%
	2,169	100.0%

Lleoliad rhai wedi ateb	Nifer	Canran
Gwynedd	1,735	80.0%
Tu allan i Wunedd	243	11.2%
Heb ateb	191	8.8%
	2,169	100.0%

Allan o'r 2,169 o ymatebion a dderbyniwyd gwnaethpwyd 1,432 o sylwadau. Er pwrpas y gwaith ymchwil rydym wedi categorio'r sylwadau i benawdau penodol. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r sylwadau a dderbyniwyd i'r cwestiwn 'sylwadau ychwanegol'. Mae werth nodi y derbyniwyd 20 o sylwadau yn benodol am y problemau yn Nhonfannau ger Tywyn.

Sylwadau pawb (Gwynedd, Tu allan i Wunedd a heb ateb)	Nifer	% cytuno efo'r sylwad
"Aires" pwrpasol efo cyfleusterau yn syniad da (2 noson ar y mwyaf)	453	31.6%
Cyngor/busnesau lleol i godi ffi am gael parcio dros nos yn eu meysydd parcio/defnydd o doiledau, biniau a dŵr	449	31.4%
Angen cosbi'r rhai sydd yn parcio yn anghyfreithlon / mwy o wardeiniaid / deddfau ac arwyddion	336	23.5%
Maent yn creu rhwystr yn y meysydd parcio / ar ochr y ffyrdd / lonydd cul - dim lle i drigolion ac ymwelwyr dydd barcio	293	20.5%
Llanast / Sbwriel / gwastraff dynol yn cael ei adael ar ôl - effaith negyddol ar yr amgylchedd	257	17.9%
Dylid gwneud popeth i hybu defnydd cerbydau modur fel unrhyw fath arall o dwristiaeth i hybu'r economi leol	119	8.3%
Dylai perchnogion cerbydau modur allu fforddio talu i barcio mewn mannau cyfreithlon	117	8.2%
Angen darparu llefydd parcio/"aires" mewn mannau gwledig hefyd ac nid trefi yn unig	73	5.1%
Parcio anghyfreithlon - cyfrannu dim i'r economi leol	70	4.9%
Cerbydau modur yn parcio yn anghyfreithlon yn creu drwg deimlad rhwng trigolion Gwynedd ac ymwelwyr	59	4.1%
Rhaid darparu llefydd parcio/gwersylloedd pwrpasol cyn symud ymlaen i gosbi	58	4.1%
Angen gwneud rhywbeth i sortio'r broblem	56	3.9%
Dim modd troi fyny i wersylloedd campio am noson erbyn hyn unai am eu bod nhw llawn / ddim yn eich derbyn am un noson	45	3.1%
Nid cynyddu meysydd carafanau/campio ydi'r ateb gan nad ydy cerbydau modur angen y cyfleusterau	38	2.7%

Ni ddylid annog eu defnydd yng Ngwynedd	31	2.2%
Mae cerbydau modur yn llai o broblem na ail gartrefi / cartrefi gwyliau yn yr ardal	26	1.8%
Ni ddylid trin cerbydau modur yn yr un modd a cherbydau sydd wedi eu trawsnewid i fod yn gartref modur	25	1.7%
Dylid cael gwared ar y bariau rhwystr uchder mewn meysydd parcio	22	1.5%
Gwynedd prysur troi yn faes chwarae i ymwelwyr	21	1.5%
Dylid cael arwyddion o sut i fynd i'r toiled yn y gwylt / gwaredu gwastraff	19	1.3%
Dylid gadael nhw barcio ar ochr ffyrdd / meysydd parcio	18	1.3%
Dylid cael system ble mae perchnogion yn gorfod cofrestru i gael permit os ydynt yn hunan gynhaliol	17	1.2%
Dylid codi "treth ymwelwyr"	14	1.0%

Er diben y gwaith ymchwil rydym hefyd yn cyflwyno sylwadau'r 1,167 allan o 1,735 oedd wedi gwneud sylw a oedd hefyd wedi nodi yn yr holiadur eu bod yn drigolion yn byw yng Ngwynedd. Mae ychydig o wahaniaethau yn y canrannau fel nodir yn y tabl.

Byw yng Ngwynedd (1,167 allan o 1,735 wedi gwneud sylw)

Sylwadau'r rhai a nododd eu bod yn byw yng Ngwynedd	Nifer	% cytuno efo'r sylwad
Cyngor/busnesau lleol i godi ffi am gael parcio dros nos yn eu meysydd parcio/defnydd o doiledau, biniau a dŵr	367	31.4%
"Aires" pwrpasol efo cyfleusterau yn syniad da (2 noson ar y mwyaf)	328	28.1%
Angen cosbi'r rhai sydd yn parcio yn anghyfreithlon / mwy o wardeiniaid / deddfau ac arwyddion	300	25.7%
Maent yn creu rhwystr yn y meysydd parcio / ar ochr y ffyrdd / lonydd cul - dim lle i drigolion ac ymwelwyr dydd barcio	264	22.6%
Llanast / Sbwriel / gwastraff dynol yn cael ei adael ar ôl - effaith negyddol ar yr amgylchedd	225	19.3%
Dylai perchnogion cerbydau modur allu fforddio talu i barcio mewn mannau cyfreithlon	105	9.0%
Dylid gwneud popeth i hybu defnydd cerbydau modur fel unrhyw fath arall o dwristiaeth i hybu'r economi leol	86	7.4%
Parcio anghyfreithlon - cyfrannu dim i'r economi leol	62	5.3%
Angen darparu llefydd parcio/"aires" mewn mannau gwledig hefyd ac nid trefi yn unig	58	5.0%
Rhaid darparu llefydd parcio/gwersylloedd pwrpasol cyn symud ymlaen i gosbi	54	4.6%
Cerbydau modur yn parcio yn anghyfreithlon yn creu drwg deimlad rhwng trigolion Gwynedd ac ymwelwyr	53	4.5%

Angen gwneud rhywbeth i sortio'r broblem	51	4.4%
Dim modd troi fyny i wersylloedd campio am noson erbyn hyn unai am eu bod nhw llawn / ddim yn eich derbyn chi am un noson	29	2.5%
Nid cynyddu meysydd carafanau/campio ydi'r ateb gan nad ydy cerbydau modur angen y cyfleusterau	26	2.2%
Ni ddylid annog eu defnydd yng Ngwynedd	24	2.1%
Mae cerbydau modur yn llai o broblem na ail gartrefi / cartrefi gwyliau yn yr ardal	24	2.1%
Ni ddylid trin cerbydau modur yn yr un modd a cherbydau sydd wedi eu trawsnewid i fod yn gartref modur	23	2.0%
Gwynedd prysur troi yn faes chwarae i ymwelwyr	18	1.5%
Dylid cael gwared ar y bariau rhwystr uchder mewn meysydd parcio	18	1.5%
Dylid codi "treth ymwelwyr"	14	1.2%
Dylid cael system ble mae perchnogion yn gorfod cofrestru i gael permit os ydynt yn hunan gynhaliol	14	1.2%
Dylid cael arwyddion o sut i fynd i'r toiled yn y gwylt / gwaredu gwastraff	13	1.1%
Dylid gadael nhw barcio ar ochr ffyrdd / meysydd parcio	12	1.0%

5.1 Prif ganfyddiadau trigolion a chymunedau Gwynedd:

- Canran uchel o drigolion lleol yn nodi fod problemau yn eu hardal oherwydd cartrefi modur. 46.1% yn nodi ar gyfnodau e.e. yr haf, penwythnosau a 17.9% yn nodi ei fod yn broblem gydol y flwyddyn.
- Mwyafrif o drigolion lleol yn datgan mae treialu syniadau newydd e.e. cyfres o 'aires' mewn safleoedd mwy trefol gan ddefnyddio meysydd parcio cyfredol y Cyngor neu fusnesau preifat fyddai datrysiad mwyaf addas (1,599 yn cefnogi 73.7%)
- 69.2% yn datgan y byddent yn hapus gweld treialu defnydd o feysydd parcio mewn lleoliadau mwy trefol a chaniatáu parcio dros nos am gyfnod penodol e.e. 48 awr.

6. Sefyllfa yng Ngwynedd 2021

Mae lefelau ymwelwyr ar draws yr holl sectorau llety yn 2021 wedi bod yn gwbl ddigynsail yma yng Ngwynedd. Sefyllfa sydd yn cael ei yrru gan gyfyngiadau teithio tramor a phoblogrwydd yr ardal yn gyffredinol ymysg teithwyr ym Mhrydain. Mae'r ymweliadau gan gartrefi modur yma i Wynedd hefyd wedi gweld lefelau eithriadol sydd wedi cael effaith enfawr ar wasanaethau awdurdodau lleol a chymunedau ar draws y sir. Mae Cyngor Gwynedd ac Awdurdod PCE wedi uchafu gwasanaethau a gweithgaredd i fynd i'r afael a phroblemau yn lleol. Mae'r gweithgareddau ychwanegol yn cynnwys:

- Uchafu lefelau wardeiniaid
- Cynyddu lefel ac amllder gwasanaethau e.e. casglu sbwriel
- Arwyddion ychwanegol mewn lleoliadau problemus

- Ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu aml bwrpas (yn annog defnyddio meysydd cydnabyddedig a pheidio â champio'n wyllt)
- System gwynion



<https://www.facebook.com/visitingsnowdonia/videos/1440705772955454>



<https://www.facebook.com/visitingsnowdonia/photos/10159487745689374>



Er gwaethaf ymdrechion mae 'campio gwyllt' wedi parhau i ddigwydd a nifer fawr o gwynion wedi eu derbyn gan Gyngor Gwynedd ac Awdurdod PCE. Mae'r prif leoliadau problemus yn cynnwys:

- Y Foryd

- Porth Neigwl
- Llanberis
- Dinas Dinlle
- Trefor
- Porth Ysgaden
- Dol Idris
- Rhwng Dolgellau a Bontddu
- Llyn Dinas
- Y Bala yn enwedig o amgylch Llyn Tegid a Bron Feuno
- Dyffryn Ardudwy
- Capel Curig / Llynau Mymbyr
- Cromlech a Nant Peris
- Dyffryn Ogwen
- Tywyn / Tonfannau
- Criccieth
- Pwllheli



(Lluniau APCE)

7. Prif ganfyddiadau ac argymhellion y gwaith ymchwil i'r sefyllfa cartrefi modur yng Ngwynedd

Prif ganfyddiadau:

- Ymddengys fod y sector cartrefi modur yn fath eithaf newydd o farchnad sydd wedi datblygu fwy fwy yn y blynyddoedd diwethaf wrth i anghenion y boblogaeth newid a gallu'r cerbydau i fod yn fwy hunangynhwysol a chyfforddus. Twf ers 2010.
- Mae patrwm neu natur y ffordd mae perchnogion cartrefi modur yn treulio eu gwyliau yn wahanol i 'wersylla mwy traddodiadol' gyda thueddiadau i deithio o un lle i'r llall ac aros am ddiwrnod neu ddau yn unig mewn lleoliad cyn symud ymlaen. Nododd 52% ond yn aros mewn un lle am 1 neu 2 noson yn unig.
- Rhagdybir na fydd y twf mewn poblogrwydd a nifer cartrefi modur ar ein ffyrdd yn lleihau. Cynyddu mae'r trend a rhagdybir bydd twf pellach yn sgil COVID-19.
- Ymddengys fod y ddarpariaeth sydd ar gael gan feysydd carafán a gwersylla Gwynedd ddim bob amser yn diwallu anghenion a phatrwm teithio perchnogion cartrefi modur. Dengys fod ymwelwyr mewn cartrefi modur eisiau aros mewn lleoliadau sydd yn agos at gyfleusterau e.e. tai bwyta, siopa ayyb. Cyrhaedd lleoliad yn hwyrach ar ôl 18:00pm ac yn gadael y fuan.
- Mae perchnogion cartrefi modur yn tueddu i deithio trwy'r flwyddyn. Mae mwyafrif o feysydd carafanau a gwersylla yn agored o Ebrill i Hydref ac ar adegau penodol mae awgrym yn enwedig yn ystod 2020 fod materion capasiti.
- Mae nifer uchel o ymwelwyr cartrefi modur yn defnyddio cyfuniad o safleoedd carafán a pharcio / campio gwyllt pan ar wyliau. Nododd 92.2% y byddent yn defnyddio darpariaeth debyg i Aire pe bai ar gael.
- Mae gwahaniaethau amlwg rhwng polisiau yn y DU ac Ewrop.
- Mae rhai ardaloedd yn enwedig yn yr Alban yn datblygu rhwydwaith o gyfleusterau ar gyfer ymateb i anghenion.
- Canran uchel o drigolion lleol yn nodi fod problemau yn eu hardal oherwydd cartrefi modur.
- 46.1% yn nodi ar gyfnodau e.e. yr haf, penwythnosau a 17.9% yn nodi ei fod yn broblem gydol y flwyddyn.
- Mwyafrif o drigolion lleol yn cefnogi treialu syniadau newydd e.e. cyfres o 'aires' mewn safleoedd mwy trefol gan ddefnyddio meysydd parcio cyfredol y Cyngor neu fusnesau preifat fel datrysiad mwyaf addas i'r problemau.
- 2021 wedi bod yn flwyddyn cwbl ddigynsail o ran ymweliadau a lefelau cartrefi modur yng Ngwynedd.

8. Argymhellion

Ar sail y dystiolaeth sydd wedi deillio o'r gwaith yma, credir fod angen gwell rheolaeth o'r sector cartrefi modur yng Ngwynedd ac y dylid ystyried yr argymhellion canlynol:

8.1 Treialu a hwyluso'r defnydd

- Defnyddio asedau cyhoeddus megis meysydd parcio cyhoeddus mewn cyrchfannau priodol er mwyn treialu darpariaeth parcio 'dros nos' ar gyfer diben cartrefi modur (bydd hyn wrth gwrs yn ddarostyngedig i'r angen am ganiatâd cynllunio, trwydded safle)
- Treial i edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio meysydd parcio cyfredol lle gellir gwneud addasiadau syml i ddarparu gwasanaethau sylfaenol megis dŵr ffres, gwagio toiledau, dwr llwyd a sbwriel. Argymhell edrych ar oddeutu 6 ar draws Gwynedd. Rhain i weithredu fel rhwydwaith o 'Aires' Gwynedd.
- Gweithredu rheoliadau pendant er enghraifft:
 - Cerbydau hunangynhwysol yn unig a chreu canllaw sirol fel yr enghraifft yn Seland Newydd. Datblygu canllaw hunangynhwysol 'Gwynedd' gyda CAMPRA.
 - Cerbydau sydd ddim yn hunangynhwysol i ddefnyddio meysydd carafán a gweryslla.
 - Gosod canllaw clir am hyd arhosiad - argymhell uchafswm o 2 noson.
 - Dim gweithgareddau 'gweryslla' i'w ganiatáu e.e. bbq, awnings ayyb. Canllaw sirol i'w ddatblygu.
 - Cysidro strwythur ffioedd i aros dros nos rhwng 18.00pm a 8.00am
- Defnyddio'r matrices lleoliadau fel yr un sydd yn Atodiad 3 i gynorthwyo gydag adnabod safleoedd addas ac i helpu i gwrdd a gofynion polisiâu cynllunio perthnasol. Hyn yn berthnasol i diroedd cyhoeddus a preifat.
- Treialu am gyfnod hyd at 2 flynedd

Datblygu dull digidol i ddangos argaeledd, talu a bwcio safle parcio o flaen llaw.

8.2 Rheolaeth a chodi ymwybyddiaeth

- Datblygu canllaw 'Aros yn gyfrifol' ar gyfer ymwelwyr cartrefi modur. Megis yr enghraifft yn Ardal y Llynnoedd.
- Hyrwyddo a marchnata negeseuon 'aros mewn meysydd gweryslla' addas.
- Codi ymwybyddiaeth a chyfathrebu negeseuon yn annog defnydd o feysydd carafán a gweryslla traddodiadol.
- phlisma / gorfodi parcio dros lle mae'r Cyngor gyda'r grym a thystiolaeth
- Ystyriaeth i ddefnyddio cyfyngiadau parcio dros nos ychwanegol yn yr ardaloedd sydd yn cael eu adnabod fel 'hot spots' ond bydd angen ystyried hyn ar y cyd gyda'r argymhelliad i dreialu. Bydd angen hefyd ystyried pa mor ymarferol fydd gorfodi o ran cael y dystiolaeth ac o ran yr adnodd.
- Galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu'r Ddeddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960 fel ei fod yn cwrdd yn well ac anghenion y sector twristiaeth heddiw.

9. Diolchiadau - Derbyniwyd nifer o negeseuon yn diolch i Gyngor Gwynedd am gymryd camau i ymchwilio i'r mater.

I would like to congratulate your Council for being forward thinking enough to consider the benefits of European style 'Aires' in Snowdonia. Mark / Jo Skerritt

I have just filled in your questionaire re provision of European style motorhome aires in Gwynedd. I must say how refreshing it is to see a council that is 'forward thinking' in welcoming all tourists who arrive in motorhomes. Mrs j t marshall

I congratulate you on your desire to embrace motorhomers..and let's face it...most motorhomers are retired and want to spend their kids inheritance...so hopefully we can spend it in Gwynedd!!! Mrs j t marshall

Just completed the questionnaire about aires. Very pleased to see that this idea is being seriously considered. It works well in Europe, and would be very welcome in the UK. Richard Hubard

I have just completed your survey on motorhome and campervan use, and want to thank you for taking the time to find out what van owners would like to see in the area. Jo Morris

Dyna plaser cael gweld y math yma o agwedd ac ymchwil tuag at ddefnydd o modur-dai and camperfanau yng Ngwynedd. Richard Evans

***Diolch i Nia Wyn Vaughan a Lowri Wyn Morton, Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth Cyngor Gwynedd am eu cymorth gyda dadansoddi'r data a gasglwyd.**